# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Peter Black | Adran Etholiadol: | Cwmbwrla |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Es i i gyfarfodydd PACT misol ac es i i'r afael â materion a drafodwyd â'r swyddogion gan ddosbarthu cylchlythyr cyson bob chwe wythnos i bob cartref yn y ward. Es i i'r afael â nifer o faterion gyda fy nghyd-gynghorwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. Cael sicrwydd ynglŷn â dyfodol Llyfrgell Brynhyfryd
2. Gweithio gyda phreswylwyr lleol i gael bws rhif 25 i weithredu ar Heol Trefansel unwaith eto
3. Gosod mesurau o gwmpas Ysgol Burlais i ddiogelu preswylwyr rhag parcio anghyfreithlon a pharcio sy'n achosi niwsans
4. Cefnogi rhoi terfyn cyflymder 20mya ar waith o gwmpas Ysgol Brynhyfryd
5. Defnyddio'r Tîm NEAT i glirio nifer o lonydd â gordyfiant yn yr ardal
6. Cael gwared ar dipio anghyfreithlon o'r cwrs rasio a chymryd camau i atal mynediad i gerbydau
7. Ailbeintio'r cilfannau parcio ar Heol Eaton
8. Gweithio gyda phreswylwyr ar Heol Caerfyrddin er mwyn eu helpu i glirio lôn gefn
9. Gosod bolardiau o gwmpas y depo ambiwlans i atal parcio sy'n achosi niwsans
10. Gosod biniau baw cŵn newydd ym Mharc Cwmbwrla
11. Gwneud gwelliannau i Barc Cwmbwrla gan gynnwys ailwynebu llwybrau cerdded, gosod stribyn tarmac ar fynedfa Heol Ganol a ffensys palis ar ffin Heol Ganol
12. Wedi ymgyrchu dros osod system mynediad â llais yn y fflatiau cyngor ar Stryd Elgin
13. Ail-agor lawnt fowlio Parc Trefansel fel lle diogel i blant gael chwarae
14. Anogais Network Rail i chwistrelli'r canclwm y tu ôl i Stryd Courtney
15. Gofynnais i Dai Coastal glirio lôn y tu ôl i Stryd Millwood a gosod CCTV yno
16. Symudais y llinellau ildio ar Glôs Arthur Morris er mwyn gwella gweledd
17. Symudais safle bws adfeiliedig o Stryd Gwilym

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 15 | / | 16 | 93.75 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 3 | / | 3 | 100.00 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 11 | / | 12 | 91.67 | % |
| **Cyffredinol** | **29** | **/** | **31** | 93.55 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Panel Gwasanaethau i Oedolion | 13 | / | 13 | 100.00 | % |
| **Cyffredinol** | **13** | **/** | **13** | 100.00 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Llywodraethwr Ysgol Gynradd Burlais ac Ysgol Gyfun Pentrehafod. Aelod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

-

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Es i i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

19/05/2017 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
07/11/2016 - Diogelu
19/10/2016 - Hyfforddiant Maes Pentref
19/10/2016 - Hyfforddiant Hawliau Tramwy
27/06/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ynghyd â'm cyd-gynghorwyr ward, gwnaethom gyflwyno cylchlythyr i bob cartref yn y ward bob chwe wythnos.

Cyflwynais sylwadau am ddyfodol Llyfrgell Brynhyfryd a derbyniais sicrwydd am y pwnc hwn, gan arwain at Aelod y Cabinet yn cyhoeddi bod yr adolygiad llyfrgelloedd a sbardunwyd gan weinyddiaeth y cyngor wedi cael ei ddileu. Heriais y gwaharddiad ar sachau du yn cael eu cludo i ganolfan ailgylchu Penlan a chyfyngu preswylwyr i dair sach ddu yn unig.

Roeddwn hefyd wedi gwrthwynebu'r cynnydd o 2.75% yn nhreth y cyngor a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2017 gan amlygu'r ffaith bod treth y cyngor Band B wedi cynyddu i £1,109.50 y flwyddyn neu £110.95 am bob un o'r 10 mis y bydd yn cael ei chasglu.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (2016-2017)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 02.10.2017 |
|---|---|